**Tasg 1**

# Y Flwyddyn Newydd

1. Ydy'r bechgyn yn dod o Dde Cymru neu o Ogledd Cymru, yn eich barn chi?

   Chwiliwch am bum gair neu ymadrodd i gefnogi'ch ateb.

   Cymharwch eich syniadau chi gyda syniadau pobl eraill.

2. Mae'r bechgyn yn sôn am rai o draddodiadau'r Flwyddyn Newydd ar draws y byd.
   Beth ydyn nhw? Llenwch y grid yma.

| Beth yw'r traddodiad? | Ble – pa wlad? | Pam mae'n bwysig? |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

3. Chwiliwch am wybodaeth am ddau draddodiad Blwyddyn Newydd arall sy'n bwysig mewn rhannau eraill o'r byd a llenwch y grid yma.

| Beth yw'r traddodiad? | Ble – pa wlad? | Pam mae'n bwysig? |
|---|---|---|
| | | |
| | | |

4. a. Dywedwch wrth bartner am y traddodiadau.
   b. Llenwch y grid isod am draddodiadau'ch partner chi.

| Beth yw'r traddodiad? | Ble – pa wlad? | Pam mae'n bwysig? |
|---|---|---|
| | | |
| | | |

c. Fel dosbarth, rydych chi'n mynd i baratoi gwybodaeth ar gyfer gwefan. Y testun yw:
**Dathlu'r Flwyddyn Newydd ar draws y Byd.**

Ysgrifennwch yn llawn am y traddodiadau rydych chi wedi dod o hyd iddyn nhw. Defnyddiwch y wybodaeth yn y grid (yn **3**. uchod) i'ch helpu chi.